

ABLETT, NOAH (1883 - 1935); Glöwr ac arweinydd Undeb Llafur

Enw: Noah Ablett

Dyddiad geni: 1883

Dyddiad marw: 1935

Priod: Ann Ablett (née Howells)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: Glöwr ac arweinydd Undeb Llafur

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: Huw Morris-Jones

Ganwyd yn Porth, Rhondda, 4 Hydref 1883, mab John a Jane Ablett. Glöwr yn y Rhondda oedd Ablett pan aeth i'r Coleg Llafur. Pan ddychwelodd penodwyd ef yn swyddog mesur glo yn y Maerdy. Etholwyd ef yn aelod o bwyllgor canol Ffederasiwn Glöwyr y De, yn Ionawr 1911, ac yn ddiweddarach o bwyllgor canol Ffederasiwn Glöwyr Prydain Fawr. Yn 1918 penodwyd ef yn gynrychiolydd y glowyr ym Merthyr ac yno y bu hyd ei farw.

Y mae i Ablett ddau bwysigrwydd yn hanes undebaeth yn ne Cymru. Yr oedd yn un o arweinwyr yr wrthblaid yn erbyn arweinwyr fel [William Abraham](#) Mabon. Bu hefyd yn bropagandydd syniadau syndicalaidd a Marcsiaidd ymhlith y glowyr. Yr oedd eraill fel [William Brace](#) wedi gwrthwynebu [Mabon](#) o flaen dyddiau Ablett, a'r canlyniad oedd ffurfio un undeb mawr, Ffederasiwn Glowyr y De, i gymryd lle'r undebau bach lleol. Trwy eu hymdrechion hwy gwnaed i ffwrdd â'r trefniant a wnaeth [Mabon](#) i reoli cyflogau'r glowyr yn ôl pris y glo, trefn a fuasai mewn grym o 1875 i 1903. Gwrthwynebu am resymau undebol a wnaethant hwy. Ar y llaw arall barn Ablett oedd bod brwydr ddigyfaddawd rhwng gweithiwr a pherchennog mewn cymdeithas gyfalafol. Gwrthwynebodd felly unrhyw gymrodedd rhyngddynt a galwodd ar y gweithiwr i ddod ar streic nid yn unig i wella'i gyflwr fel gweithiwr ond i ddiddymu'r perchennog yn gyfan gwbl. Anogodd y gweithwyr i baratoi streic gyffredinol a meithrin ysbryd ymladdgar yn y frwydr yn erbyn y dosbarthiadau uchaf.

Daeth i'r amlwg yn gyntaf yn y streic ym mhyllau glo'r Cambrian yn y Rhondda a barhaodd o Hydref 1910 i Fedi 1911. Bwriad y glowyr oedd cael cytundeb y cwmni ar egwyddor o benderfynu isrif cyflog. Anfonodd yr awdurdodau nifer o blismyn a chatrodau milwrol i Gwm Rhondda a bu amryw ysgarmesoedd rhyngddynt a'r streicwyr. Cyhoeddodd Ablett fanifesto o blaid streic gyffredinol a gwrthwynebu telerau'r cwmni. Eithr wedi dioddefiadau pedwar mis ar ddeg o ddiweithdra bu raid i'r Undeb ildio a'u derbyn. Ffurfiodd Ablett gydag eraill fel [A. J. Cook](#), bwyllgor dan yr enw 'Unofficial Reform Committee', a chyhoeddi pamffledyn [The Miners' Next Step](#). Gwaith Ablett oedd y drafft cyntaf ac y mae'n hynod am y gymysgfa o syndicaliaeth a Marcsiaeth sydd ynddo. Ceir apêl ynddo ar i'r gweithwyr ffurfio un undeb mawr a pharatoi i feddiannu a rheoli diwydiant y wlad. Cafodd gylchrediad eang a bu'n achos trafodaeth frwd mewn ardaloedd diwydiannol i fyny ac i lawr y wlad.

Cyhoeddodd Ablett hefyd nifer o erthyglau yn y *Plebs*, cylchgrawn y Coleg Llafur, a llyfr, *Easy Outlines of Economics*. Gwrthwynebydd unig ydoedd fel arfer ar gynghorau'r Undeb a mabwysiadodd yr Undeb bolisi o genedlaetholi'r diwydiant glo yn hytrach na syniadau syndicalaidd Ablett.

Priododd Ann Howells yn 1912 a bu iddynt ddau o blant. Bu farw 31 Hydref 1935 ym Merthyr Tudful.

Awdur

Yr Athro Huw Morris-Jones, (1912)

Ffynonellau

D. Evans, *Labour Strife in the South Wales Coalfield, 1910-11 A historical and critical record of the Mid-Rhondda, Aberdare Valley, and other strikes* (Caerdydd 1911)

Ness Edwards, *History of the South Wales Miners Federation* (Llundain 1938)

Gwybodaeth oddi wrth aelodau teulu Ablett

Further reading

The Miners' next step: being a suggested scheme for the reorganization of the Federation (Tonypandy 1912)

Ian Sinclair, [100 Years on: The Miners' Next Step](#), 4 June 2012

Spartacus Educational: [Noah Ablett](#)

Erthygl Wicipedia: [Noah Ablett](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [36684953](#)

Wikidata: [Q7045349](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

